

Trwy e-bost

15^{fed} Medi 2021

Annwyl John,

Hoffwn ddiolch i chi am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar feysydd blaenoriaeth y Pwyllgor yn ystod tymor nesaf y Senedd. Mae nifer o fy argymhellion a sylwebaethau isod yn berthnasol i Bwyllgorau Senedd eraill, ond roeddwn i eisiau eu tynnu atoch chi hefyd oherwydd dylid ymdrechu ar draws Pwyllgorau i integreiddio gwahanol feysydd gwaith. Bydd integreiddio meysydd polisi yn well yn sicrhau craffu ar y cyd, y gallu i nodi bylchau gweithredu a chynnig atebion ar draws gwaith y Senedd. Gallwch ddod o hyd i'm llythyrau at Bwyllgorau eraill [yma](#).

Hoffwn hefyd awgrymu i chi ac i Bwyllgorau eraill faes trawsbynciol, y gellir edrych arno ar y cyd ac mewn cydweithrediad gan rai, neu yn ddelfrydol pob un, o Bwyllgorau'r Senedd: *Sgiliau ar gyfer Adferiad Gwyrdd*. Mae adferiad gwyrdd llewyrchus, cyfartal, o effeithiau COVID-19 yn golygu darparu bywoliaethau o ansawdd da i bawb, wrth gefnogi datgarboneiddio cyflym a gwella bioamrywiaeth. Mae hyn yn dibynnu ar gael y sgiliau a'r hyfforddiant cywir ar gyfer ein poblogaeth. Mae hwn yn faes y mae fy nhîm fy hun wedi'i archwilio yn ddiweddar, a gallwch ddod o hyd i'n cyhoeddiad diweddaraf [yma](#).

Ym mis Mai 2020, cyhoeddais yr [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf erioed](#), a oedd yn ystyried y cynnydd a wnaed gan gyrff cyhoeddus wrth weithredu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd hefyd yn nodi'r camau a'r argymhellion y dylai gyrff cyhoeddus eu mabwysiadu wrth iddynt roi'r ddeddfwriaeth ar waith ymhellach. Rwyf wedi tynnu sylw'r Pwyllgor isod at ganfyddiadau ac argymhellion perthnasol yr adroddiad i'w hystyried (Atodiad 1). Byddwn yn annog holl Aelodau'r Pwyllgor i ystyried yr adroddiad ac yn benodol Pennod 2 ar [arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru](#) a [newid diwylliannol y sector cyhoeddus](#), yn ogystal â'r [adran ar Dai](#). Wrth gwrs, dylid hefyd ystyried cyfrifoldeb y pwyllgor yn ehangach ar draws bob un o'r nodau llesiant.

Byddwn hefyd yn awgrymu eich bod yn ystyried yr ail iteriad o'r Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol sydd ar ddod, a gyhoeddir yn ddiweddarach eleni gan Lywodraeth Cymru. Mae Atodiad 2 isod yn rhoi rhai o'r tueddiadau perthnasol i chi yn y dyfodol a allai effeithio ar gylch gwaith y Pwyllgor.

Byddwn hefyd yn cynghori pob Pwyllgor i ystyried sut mae'r meysydd blaenoriaeth o'u dewis yn cyd-fynd â'r amcanion llesiant a'r camau yn y Rhaglen lywodraethol gyhoeddedig.

Rwyf wedi tynnu sylw at y canfyddiadau a'r argymhellion perthnasol, a ddaeth i'r amlwg o fy ngwaith, i helpu'r Pwyllgor i ddewis y meysydd penodol y byddant yn canolbwyntio arnynt yn ystod tymor nesaf y Senedd. Byddwn i a fy nhîm yn hapus i gwrdd ag Aelodau'r Pwyllgor neu glercod i drafod hyn ymhellach, os credwch y byddai hynny'n ddefnyddiol.

Tai

Mae tai yn un o'r meysydd ffocws polisi yr wyf wedi'u dewis ar gyfer fy swyddfa yn dilyn ymarfer cynnwys helaeth, gan fod ganddo'r potensial i fynd i'r afael â sawl her y mae ein cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol yn eu hwynebu a chyfrannu at nifer o'r nodau llesiant a nodir yn y Ddeddf. Mae'r

adeiladau rydyn ni'n byw ynddynt fel arfer yn bodoli am ganrif neu fwy, ac felly bydd y penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud heddiw yn cael effaith ddwys ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol - yn uniongyrchol ar eu hamodau byw ac yn ehangach, allyriadau carbon Cymru, ein tirwedd, economi a chymunedau.

Yn yr un modd â'm holl feysydd ffocws, rwyf wedi gwneud gwaith sylweddol ym maes Tai ac, yn fwy penodol, datgarboneiddio cartrefi Cymru.

Mae'r canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg trwy'r gwaith hwn yn cynnwys:

- Mae tai yn faes allweddol lle mae'n rhaid cymryd camau i atal, lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- Mae'r adolygiad annibynnol o Ddatgarboneiddio Cartrefi Presennol yng Nghymru yn nodi cyfres o argymhellion y dylid eu mabwysiadu, megis Llywodraeth Cymru yn gosod targedau tai uchelgeisiol i gyflawni ei huchelgaïs o gyflawni sero-net erbyn 2050 a sefydlu'r system ansawdd gywir a mecanweithiau cyflenwi ar draws pob deiliadaeth i helpu i gyflawni'r targedau hyn.
- Mae oedran a chyflwr stoc dai Cymru yn her benodol ar gyfer datgarboneiddio. Dangosodd fy ymchwil ddiweddar, mewn cydweithrediad â'r New Economics Foundation, o'r £14.75bn o fuddsoddiad sydd ei angen i ddatgarboneiddio a gwella ansawdd cartrefi Cymru, y dylai £3.6bn ddod o'r DU a £1.7bn gan Lywodraeth Cymru, gyda 64% o gyfanswm y buddsoddiad sy'n dod o gyllid preifat, cwmnïau ynni neu hunan-ariannu gan berchnogion eiddo.
- Yn 2020, mae Cymru yn dal i adeiladu cartrefi nad ydynt yn cefnogi ein targedau allyriadau carbon.
- Mae'r gost o fodloni datgarboneiddio tai yn sylweddol ond bydd yn sicrhau buddion sylweddol i lawer o nodau llesiant, arbed costau mewn gwasanaethau a thwf economaidd lleol.
- Mae angen uwchraddio'r camau ar ddod ag eiddo gwag yn ôl i'w defnyddio.
- Er gwaethaf deddfwriaeth flaengar, mae'r argyfwng tai yng Nghymru yn parhau i achosi anawsterau i'r rheini sydd angen cartref addas, fforddiadwy a'r rhai sy'n adeiladu cartrefi. Mae 155,000 o gartrefi yng Nghymru mewn tloedi tanwydd. Gallai effaith y pandemig diweddar ar ddiweithdra a newid arferion gwaith olygu bod y ffigur hwn hyd yn oed yn uwch.
- Mae digartrefedd yn parhau i fod yn broblem sylweddol ond mae gan gamau a gymerir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol y potensial i'w atal.
- Mae cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydnabod yn gynyddol y cysylltiadau rhwng tai a rhai o'u hamcanion llesiant, ond gellid gwneud mwy i ymuno â'r holl ddotiau. Yn benodol, gellid gwneud mwy i wneud y cysylltiad rhwng tai a sgiliau. Gallai Rhaglen Datgarboneiddio Tai Cymru greu 26,500 o swyddi newydd yng Nghymru erbyn 2030 ond dim ond trwy warantu buddsoddiad tymor hir sy'n gysylltiedig â blaenoriaethu prentisiaethau ac ailsgilio'r gweithlu presennol (a'r dyfodol) mewn crefftau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau.
- Mae angen i'r sector cyhoeddus ddangos sut mae'n defnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael iddo i gefnogi dim gwastraff, yr economi gylchol a sgiliau gwyrdd, gan gynnwys ym maes adeiladu.
- Mae lle i well cydweithredu rhwng y sector cyhoeddus a chwmnïau adeiladu.
- Mae'r argyfwng tai yn arbennig o ddifrifol mewn ardaloedd arfordirol a gall olygu nad yw pobl yn gallu dod o hyd i gartref yn eu cymuned eu hunain. Mae hyn yn effeithio ar gymunedau Cymraeg a chynnal gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig. Mae tai hefyd yn broblem i boblogaethau dros dro, sy'n effeithio ar y sector amaethyddol, er enghraifft gweithwyr fferm mudol nad ydynt yn gallu dod o hyd i lety ac sy'n byw mewn faniau. Yr wyf yn bwriadu ysgrifennu at y Llywodraeth i ofyn arnynt i weithredu ar frys. Fe rannaf y llythyr gyda'r pwyllgor maes o law.

Yn seiliedig ar fy nghyngor a'm gwaith presennol, byddwn yn annog y Pwyllgor i ystyried canolbwyntio eu gwaith ar dai o amgylch y themâu canlynol:

- **Nodi cynllun tymor hwy ar gyfer ariannu datgarboneiddio ein cartrefi**
- **Cynyddu'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni rhaglen ôl-ffitio tai / adeiladau cenedlaethol**
- **Cynyddu'r cyflenwad o'r cartrefi cywir**
- **Ymateb i her yr argyfwng tai**
- **Gweld tai fel sbardun llesiant**
- **Gwella'r ffordd rydyn ni'n cynllunio a dylunio tai (a lleoedd/cymunedau)**

Mae mwy o fanylion a chyngor mewn perthynas â Thai i'w gweld yn y [Crynodeb Gweithredol](#) neu'r [Adran Iawn ar Dai](#) yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol; fy adroddiad diweddar, [Cartrefi sy'n addas ar gyfer y Dyfodol: yr Her Ôl-osod](#); fy mhapur, '[Rhaglen Lywodraethu Addas ar gyfer y Dyfodol](#)'.

Efallai y bydd gennych ddiddordeb hefyd yn rhai o'r astudiaethau achos o arfer da yr wyf wedi bod yn eu casglu, sydd ar gael yma. Yn benodol, efallai yr hoffech chi edrych ar:

- [Agwedd Abertawe tuag at dai;](#)
- [Adnewyddu Cartrefi, Adeiladu Dyfodol.](#)

Llywodraeth Leol

Mewn perthynas â llywodraeth leol, gellir dod o hyd i'm cyngor, canfyddiadau ac argymhellion ym [Mhennod 2 o Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol](#) a'r adroddiad a gyhoeddais yn dilyn fy rownd gyntaf o Fonitro ac Asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu hamcanion llesiant (tudalennau 30-33), [Cynnydd tuag at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#).

Mae'r canfyddiadau hyn yn cynnwys:

- Mae materion capasiti penodol yn cael eu teimlo mewn Llywodraeth Leol.
- Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran cyflawni amcanion llesiant mewn rhai meysydd, ond mae amrywiad o ran dangos sut mae gosod amcanion a gwneud penderfyniadau yn cymhwyso pob un o'r pum ffordd o weithio.
- Mae adrodd yn dal i gael ei ystyried yn heriol o ystyried amserlenni a gofynion eraill ar Lywodraeth Leol
- Wrth weithredu'r Ddeddf, mae rhai cyrff cyhoeddus yn cyflawni'r 'beth' ac mae rhai yn cyflawni'r 'sut'; fodd bynnag, mae angen gwaith pellach i gyrff cyhoeddus ddangos 'prawf dwbl' y Ddeddf yn llawn - gan gymhwyso'r ddau. Mae llawer o gyrff cyhoeddus yn gliriach ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud i gyfrannu tuag at amcanion a nodau llesiant, ond maent yn ei chael yn anodd sicrhau gweithredu a chyflawni'n effeithiol. Mae'r ddau yn hanfodol.
- Mae angen i'r gofynion cynllunio corfforaethol, rheoli perfformiad ac adrodd a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyrff cyhoeddus adlewyrchu'r Ddeddf yn well.
- Mae cynllunio ariannol a chyllid tymor byr yn rhwystro gallu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion llesiant a gwneud cydweithredu, atal, meddwl yn y tymor hir ac integreiddio yn fwy heriol.

- Mae'r meysydd newid corfforaethol a amlinellir yn y Ddeddf yn ysgogiadau posibl i ysgogi newid, ond rhaid i gyrff cyhoeddus wneud gwell defnydd ohonynt.
- Gallai cyrff cyhoeddus fod yn gwneud mwy i gynnwys eu gweithlu wrth gyfrannu at gyflawni eu hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol, gan roi llesiant a charedigrwydd wrth wraidd polisi cyhoeddus.

Byddwn yn annog y Pwyllgor i ystyried y canfyddiadau hyn yn ofalus a'u defnyddio i lywio eu blaenoriaethau a gweithio mewn perthynas â llywodraeth leol yn nhymor nesaf y Senedd.

Rwy'n credu ei bod hefyd yn bwysig tynnu sylw at greu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a'u rôl wrth gyflawni'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae angen i'r ffordd y maent yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf fod yn integredig ac yn gydweithredol a lleihau, yn hytrach nag ychwanegu, at y dirwedd gymhleth bresennol, a ddisgrifir ym Mhennod 2 o Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r berthynas yn y dyfodol rhwng Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn arbennig o allweddol o ystyried eu gwahanol olion traed a'u cyfansoddiad, er mwyn sicrhau bod gwaith yn cyd-fynd ac nad yw ymdrechion yn cael eu dyblygu.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am y cyfle i fwydo i'w blaenoriaethau ar gyfer telerau nesaf y Senedd. Os hoffech drafod unrhyw un o'r pwyntiau uchod yn fwy manwl, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â'm tîm yn cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru.

Yr eiddoch yn gywir,



Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Atodiad 1

Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol: Argymhellion Tai

Argymhelliad Allweddol:

Dylai Llywodraeth Cymru ddod o hyd i ffordd i ymgorffori'n llawn egwyddorion Hawliau'r Cenhedloedd Unedig i Dai Digonol ym mholisi tai Cymru.

Argymhellion Polisi:

Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Gweithio gyda sefydliadau a chymunedau i osod gweledigaeth a strategaeth hirdymor ar gyfer dyfodol tai yng Nghymru.
- Fel rhan o'r weledigaeth a'r strategaeth hon, gweithredu argymhellion yr Adolygiad Tai Fforddiadwy, yr Adolygiad Annibynnol ar Ddatgarboneiddio Cartrefi Cymreig a'r adroddiad gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd.
- Yn ystod y flwyddyn nesaf, nodi sut y bydd cynllun tymor hir ar sut y byddant yn ariannu datgarboneiddio cartrefi yn unol â thargedau allyriadau carbon.
- Ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad tai a ariennir yn gyhoeddus fod yn niwtral o ran carbon a dangos sut y maent yn cwrdd â gofynion ehangach Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Archwilio'r defnydd o ysgogiadau ariannol trwy'r Grant Tai Cymdeithasol a'r Rhaglen Tai Arloesol i annog arloesedd wrth ddatblygu tai rhwng cenedlaethau, a chymunedau a defnyddio ysgogiadau trethiant i gymell rhannu tai rhwng cenedlaethau.
- Sicrhau y dylid diweddarau Gofynion Ansawdd Dylunio i adlewyrchu'r dyfodol o ran cartrefi craff a thechnoleg byw â chymorth.
- Cefnogi ac ehangu datblygiad mentrau cymdeithasol i ddarparu swyddi a sgiliau mewn dulliau adeiladu newydd yn seiliedig ar fodelau a sefydlwyd gan Down to Earth a Cartrefi Conwy.

Argymhellion Proses:

Yn eu gweithredoedd o ddydd i ddydd dylai Llywodraeth Cymru ddod â'r canlynol i ben:

- Datblygu polisiau mewn seilos.
- Dibynnu'n llwyr ar gyllideb yr Is-adran Dai i fynd i'r afael â'r argyfwng tai a dod â digartrefedd i ben.
- Yr ymagwedd gyfredol at brosesau'r gyllideb nad yw'n gosod cyfeiriad a thargedau clir ar gyfer buddsoddi mewn atal.
- Ariannu datblygiad cartrefi nad ydynt yn niwtral o ran carbon.

Yn eu gweithredoedd o ddydd i ddydd dylai Llywodraeth Cymru ddechrau:

- Ymrwmiadau cefnogi ac adnoddau gwell i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.
- Gosod cyfeiriad cliriach ar gyfer symud buddsoddiad i atal yn seiliedig ar y diffiniad o atal.

Efallai y byddwch hefyd yn gweld yr argymhellion mewn perthynas ag arweinyddiaeth a newid diwylliannol yn Llywodraeth Cymru a Chyrff Cyhoeddus o ddiddordeb. Gallwch ddod o hyd i'r argymhellion hyn [yma](#) ac [yma](#).

Atodiad 2

Tueddiadau'r Dyfodol i Gadw Llygaid Arnynt

Gorlenwi, digartrefedd a thlodi:

- Mae digartrefedd wedi [cynyddu yn ystod y pum mlynedd diwethaf](#).
- Cynyddodd [nifer](#) y bobl sy'n cysgu allan yng Nghymru 17% rhwng 2019 a 2020. Bu [cynnydd](#) yn faint o le gwelyau sy'n cael ei gynnig i bobl sy'n cysgu allan gan awdurdodau lleol.
- Mae nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd [wedi gostwng o 26% i 12%](#) rhwng 2008 a 2018, ond mae 155,000 o aelwydydd yn dal i fyw mewn tlodi tanwydd.
- Mae'r sector rhentu preifat yng Nghymru [wedi dyblu](#) dros yr 20 mlynedd diwethaf. [Prynwyd chwarter y cartrefi a brynwyd yn 2019/20 naill ai fel cartrefi gwyliau neu fel eiddo prynu i osod](#) - gyda ffigurau mor uchel â 40% mewn rhai ardaloedd.
- Roedd [nifer](#) yr aelwydydd mewn llety dros dro yng Nghymru wedi cynyddu 8% rhwng 2018 a 2019. Dyma'r uchaf ers cyflwyno Deddf Tai (Cymru) ym mis Ebrill 2015.

Adeiladu tai i ateb y galw:

- Mae [nifer](#) yr aelwydydd yn cynyddu'n gyflymach na nifer yr eiddo sydd ar gael.
- Mae'r pwysau cynyddol i fodloni gofynion tai wedi arwain at adeiladu [nifer](#) cynyddol o gartrefi newydd mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd.
- Nid yw stoc dai Cymru yn [cynyddu](#) gyda'r cyflymder sydd ei angen i ateb y galw - bob blwyddyn mae llai na hanner y cartrefi newydd sydd eu hangen arnom yn cael eu hadeiladu.
- Gweithlu [sy'n heneiddio](#) gyda 22% o'r gweithwyr dros 50 oed a phiblinell wael o bobl ifanc yn ymuno â'r proffesiwn.

Datgarboneiddio:

- [Daw 10% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru](#) o'r sector preswyl.
- Gostyngodd allyriadau o'r sector adeiladu bron i draean rhwng 1990 a 2016 ond mae cyflymder y gostyngiad pellach yn y blynyddoedd diwethaf wedi arafu a gallai fod yn [gwrthdroi](#) hyd yn oed.
- Mae'r cartref cyffredin yng Nghymru yn parhau i fod yn [radd Tystysgrif Perfformiad Ynni o "D", ac mae'r defnydd o wres carbon isel yn parhau i fod yn <5%](#).

Rhagfynegiadau yn y Dyfodol:

- [Rhagwelir](#) y bydd mwy na 90% o stoc heddiw yn parhau i gael eu defnyddio erbyn 2050.
- Rhagwelir y bydd [nifer](#) yr aelwydydd yng Nghymru yn tyfu'n gyflymach na'r poblogaeth cyffredinol. Byddai hyn yn arwain at feintiau cartrefi llai. Rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd person sengl yn codi dros 30% yn yr 20 mlynedd nesaf.
- Mewn cyferbyniad, mae'n debygol y bydd tir [llai](#) addas ar gael i'w ddatblygu wrth i orlifdiroedd a thir is eraill ddod yn fwyfwy tueddol o gael llifogydd.
- Rhagwelir y bydd [nifer](#) yr ail gartrefi ac anheddau gwag yn parhau i gynyddu cyfanswm o 11,000 eiddo erbyn 2031, a fydd, yn ei dro, yn arwain at ostyngiad yn nifer yr anheddau sydd ar gael ar gyfer y cynnydd a ragwelir yn y galw am aelwydydd.

- Mae technoleg gynaliadwy glyfar a gofodau amlbwrpas ar [gynnydd](#) ac yn debygol o ddod yn safon yn ystod y 30-40 mlynedd nesaf.
- Mae newidiadau cyffredinol mewn ymddygiadau byw cenedlaeth bellach yn golygu bod yn rhaid i dai ddod yn fannau hyblyg a all ddal poblogaeth sy'n heneiddio yn gyffyrddus.
- Gallai rhaglen ôl-ffitio wedi'i rheoli'n dda greu sgiliau, diwydiannau newydd a [hyd at 26,500 o swyddi newydd](#) yn seiliedig ar gadwyni cyflenwi lleol.